**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **24 Medi 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 **(Atodiad 1).** Cyllideb net y Cyngor yw £192m. Ar ddiwedd mis Awst, rhagwelir tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £501k (£45k y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiad o 0.55%. Mae sefyllfa cyllidebau ysgolion yn rhagamcan symudiad cadarnhaol ar falansau o £190k (£352k y mis diwethaf).

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2013/13. Cytunwyd ar darged arbed o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn ac ar hyn o bryd mae 54% o'r targed wedi ei gyrraedd (£1.666 miliwn).

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae rhagolygon gwasanaethau cefnogi wedi’u nodi isod, os yw'n angenrheidiol:

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** – y rhagolygon presennol yw y byddant yn adennill costau ond mae gan y gwasanaeth sawl cyllideb cyfnewidiol sy’n ddibynnol ar ddiwallu targedau incwm mawr. Ond, yn seiliedig ar ffigurau presennol, mae’r cyllidebau hyn yn unol â’r targed. Rydym yn cymryd yn ganiataol hefyd y bydd y datblygiad hamdden newydd yn Rhuthun yn cyflawni’r niferoedd cwsmeriaid gofynnol fel rhan o’r achos busnes. Gall yr oedi wrth agor Harbwr y Foryd newydd effeithio ar lefelau incwm 13/14 ond cytunwyd eisoes y bydd unrhyw ddiffyg arian yn cael ei dalu yn gorfforaethol yn y flwyddyn bresennol.

**Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg –** Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn cyflawni tanwariant o £110k. Mae £58k o hwn yn berthnasol i’r oedi wrth weithredu’r ailstrwythuro Gwasanaethau Cwsmer yn llawn. Mae costau’r ailstrwythuro wedi’u hariannu o’r swm a gariwyd drosodd o danwariant y llynedd. Mae £20k yn ymwneud â lleihad a gynlluniwyd mewn cyflenwadau a gwariant gwasanaethau Cefnogi Addysg fel rhan o’r paratoadau ar gyfer effeithlonrwydd cyllideb 2014/15. Yn olaf, mae gwneud y gorau o arian grant unigryw wedi arwain at arbediad pellach dros dro yn y Gwasanaethau Cefnogi Addysg o £32k.

**Trawsnewid Busnes/TGCh** – y rhagolygon yw y bydd y gyllideb ychydig yn is na'r targed (£1k). Y rhagdybiaeth gynllunio yw y gellir clustnodi unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn o’r gwasanaeth i helpu i ariannu unrhyw fylchau yng ngham nesaf strategaeth TGCh y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â’r Cytundeb Menter Microsoft.

**Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd –** rŵan yn rhagweld gorwariant o £194k. Mae’r mwyafrif o hwn yn ymwneud â’r Gwasanaeth Cludiant Ysgol a'r ffaith bod nifer y diwrnodau ysgol ym mlwyddyn ariannol 2013/14 yn llawer uwch nag arfer (196 diwrnod o’i gymharu â 183 diwrnod y llynedd). Ar gyfartaledd, mae cludiant ar gyfer pob diwrnod ysgol yn costio tua £23k i’r Cyngor felly mae o leiaf £299k o gostau ychwanegol yn 2013/14. Mae’r pwysau hwn wedi gostwng yn dilyn adolygiad o gronfeydd wrth gefn a arweiniodd at ryddhau £106k (y Gronfa Bws Melyn gan mwyaf, sef £101k nad oes ei angen bellach).

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes –** Rhagwelir y bydd £45k o danwariant yng nghanlyniad 2013/14. Mae’r gofyniad cenedlaethol i ddiogelu cyllidebau gofal cymdeithasol wedi arwain at £905k ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu nifer o brosiectau gyda’r nod o leihau costau refeniw yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, y rhagdybiaeth yw y bydd y rhan fwyaf o’r arian ychwanegol yn cael ei wario o fewn y flwyddyn, er oherwydd natur rhai o’r prosiectau a gynigiwyd, mae’n bosibl y bydd ychydig o’r gwariant yn cario drosodd i 2014/15 a hyd yn oed i 2015/16.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd –** y sefyllfa bresennol y rhoddwyd gwybod amdani yw tanwariant o £539k, a £285k o hwnnw ar gyllidebau staffio (staff heb fod ar frig eu graddfa/swyddi gwag ayyb), £94k o danwariant ar leoliadau arbenigol, £61k wedi'i glustnodi ar gyfer lleoliad maethu nad oes ei angen bellach a £99k o danwariant wedi cario drosodd o 12/13 ac sydd heb ei ymrwymo eto. Cynigiwyd arbedion ar gyfer 2014/15 o gwmpas rhai o'r cyllidebau hyn. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Gwasanaethau Hamdden i ystyried modelau darparu gwasanaeth i'r dyfodol i ddarparu rhaglenni egniol i Blant ag Anableddau. Y cynnig gwasanaeth yw bod £250k o unrhyw danwariant yn cael ei neilltuo mewn cronfa Plant ag Anableddau i'r pwrpas hwn i'w fuddsoddi yn y dyfodol.

**Ysgolion –** ddiwedd mis Awst y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £3.060 miliwn, sy'n symudiad positif o £190k ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13 (£2.870m). Mae'r canlyniad yn cynnwys diogelwch o £775k a ddarparwyd fel cymorth ariannol trawsnewidiol ar gyfer ysgolion sydd wedi'u heffeithio gan newidiadau i'r fformwla ariannu. Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda'r ddwy ysgol sy'n cael anhawster ariannol.

Rhagwelir y bydd **Cyllidebau Corfforaethol** yn cynhyrchu tanwariant o £350k. Ar hyn o bryd yn y flwyddyn, mae ansicrwydd ynglŷn â'r dyraniadau canolog ar gyfer ynni, pensiynau a chostau eraill ond tybir bod £350k ar gael. Yn amlwg, os bydd angen arian wrth gefn yn ystod gweddill y flwyddyn (fel y llynedd gydag MMI ac effaith y tywydd garw) bydd angen diwygio'r rhagdybiaeth hon. Rhagdybir y bydd tanwariant ar gyllidebau corfforaethol yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Cynllun Corfforaethol Wrth Gefn.

Cariwyd cronfeydd **Cynllun Corfforaethol** o £10.3m ymlaen i 2013/14, gan adael gofyniad arian o tua £11.7m i ddarparu'r cynllun. Roedd cyllideb 2013/14 wedi clustnodi adnoddau cyllidebol newydd penodol o £600k i'w ddyrannu o'r Gronfa Cynllun Corfforaethol a rhagdybio y bydd o leiaf £1.3m o adnoddau a nodwyd yn flaenorol yn cael eu trosglwyddo i ariannu'r Cynllun Corfforaethol os bydd amgylchiadau yn caniatáu. Rhagdybir rŵan y bydd y trosglwyddiadau hyn yn cael eu gwneud. Mae cynhyrchu digon o arian i ariannu'r Cynllun yn hanfodol i gyflawni uchelgeisiau'r Cyngor. Mae lefelau'r derbynebau cyfalaf a ragdybir hyd yma yn is nag y cynlluniwyd yn wreiddiol, felly mae'r arian a gynhyrchir hyd yn oed yn fwy hanfodol.

Mae cyllideb y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 er hwylustod, ond mae adnoddau CRT yn gyllid ar wahân i brif adnoddau'r cyngor, a gellir ond eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau tai cyngor. Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio cynnydd o £5k mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn sy'n welliant o £107k o'i gymharu â'r rhagdybiaeth yn y gyllideb. Mae'r Cynllun Cyfalaf Tai yn unol â'r targed i wario £8.1m a dylai Safon Ansawdd Tai Cymru fod wedi'i gyflawni erbyn diwedd 2013/14.

Rhagdybir y bydd system Cymhorthdal Tai Cymru yn cael ei ddiddymu o Ebrill 2014 ac mae trafodaethau ynglŷn â'r manylion yn parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Mae crynodeb o’r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel **Atodiad 3**. Mae’r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £45.8 miliwn ac mae’r gwariant hyd at ddiwedd mis Awst yn £7.6 miliwn. Mae’r Cynllun wedi cynyddu £5m o’r mis diwethaf oherwydd bod grantiau ychwanegol wedi’u cadarnhau (gan gynnwys £1.5m ar gyfer Ysgolion 21ain Ganrif a £2.1m Rhaglen Gwella Tai Gorllewin y Rhyl). Hefyd wedi’i gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £6.8m ar y **Cynllun Corfforaethol**. Mae **Atodiad 4** yn cynnwys y diweddaraf ar y prosiectau cyfalaf mawr sydd yng y Nghynllun Cyfalaf eleni.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

Cyflwynwyd crynodeb o Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i’r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gydag Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd heriau gwasanaeth gyda phob Pennaeth Gwasanaeth ac roedd pob her yn cynnwys cynrychiolwyr o’r Pwyllgor Archwilio a’r Cabinet. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a Chyllideb gydag Aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwywyd y Cynllun Cyfalaf gan y Cyngor yn dilyn ei graffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a’i argymell gan y Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Disgwylir i wasanaethau ddarparu’r arbedion y cytunwyd arnynt trwy’r broses Herio Gwasanaeth a sefydlu cyllideb. Mae’n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau yn ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol. Yn sail i fforddadwyedd y Cynllun mae rhagdybiaethau allweddol yn ymwneud â chyllidebau refeniw ac arian parod. Mae graddfa’r Cynllun Corfforaethol yn golygu y bydd dros gyfnod o 5-7 mlynedd ac yn sicr yn golygu, wrth iddo ddatblygu, y bydd gwahaniaethau amseru rhwng rhagdybiaethau gwirioneddol ac wedi’u cynllunio ynglŷn â defnyddio arian. Gall hyn olygu y gall cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gynyddu nes y byddant wedi’u hymrwymo. Ond, mae’n hanfodol gwerthfawrogi os yw adnoddau yn cael eu dargyfeirio yn ystod bywyd y Cynllun, y bydd rhaid i’r Cyngor benderfynu pa rai o’r prosiectau a nodwyd yn flaenorol y byddant eisiau eu canslo.

Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyca’r Cyngor yn £132.514m ar gyfradd cyfartalog o 5.79%. Roedd balansau buddsoddi yn £24.0m ar gyfradd cyfartalog o 0.83%.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r Cyngor wedi'i wynebu a bydd methiant i gyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau pellach ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol bresennol ac i'r dyfodol. Bydd monitro a rheoli cyllidebol effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cynnal buddsoddiadau cyfalaf sylweddol i wella'r stoc tai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Mae'n rhaid i unrhyw fenthyciadau fod yn fforddiadwy ac mae monitro rheolaidd a chymeradwyaeth flynyddol ac asesiad hyfywdra y Cynllun Busnes Stoc Tai yn sicrhau hyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

. Mae angen i Awdurdodau Lleol, dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.